

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**

<b>Enw / Name:</b>	Meilyr Rowlands
<b>Rôl / Role:</b>	Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
<b>E-bost / Email:</b>	<a href="mailto:prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru">prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru</a>
<b>Rhif Ffôn / Tel No:</b>	02920 446 446
<b>Dyddiad / Date:</b>	9 Rhagfyr 2019
<b>Pwnc / Subject:</b>	Strwythur ar gyfer Fframweithiau Prentisiaethau Cymru

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

## Cyflwyniad

At ei gilydd, mae Estyn yn cefnogi'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori. Dylai prentisiaethau fod o ansawdd uchel ac yn ddewis arall hyfyw yn lle cyrsiau Safon Uwch ac addysg uwch. Dylent ddarparu medrau lefel uchel ar gyfer dysgwyr i gynnal cyflogaeth a chael cyfleoedd dilyniant clir. Dylent ddarparu'r medrau ymarferol i ddysgwyr, a'r wybodaeth ddamcaniaethol, sy'n angenrheidiol ar gyfer heddiw, ac yn y dyfodol. Dylent ddarparu mynediad cyfartal a sicrhau bod hyfforddiant ac asesiadau ar gael pan fydd angen.

- Dylai prentisiaethau fod yn ddewis amgen o ansawdd uchel yn lle cyrsiau Safon Uwch ac addysg uwch, a darparu parch cydradd â llwybrau eraill ar bob lefel
- Rhaid iddynt ddarparu i ddysgwyr y medrau sydd eu hangen ar gyflogwyr heddiw, ac yn y dyfodol
- Rhaid iddynt gael llwybrau dilyniant clir
- Dylai hyfforddiant ac asesiadau fod ar gael yn ddwyieithog, lle bo'n briodol
- Dylai prentisiaethau fod yn gludadwy ac o ansawdd uchel
- Dylai prentisiaethau ddiwallu anghenion ystod eang o gyflogwyr a chwmpasu'r sbectwm llawn o lwybrau galwedigaethol

**Cwestiwn 1** – A ydych chi'n cytuno ag egwyddor cysylltu sectorau a llwybrau prentisiaethau â galwedigaethau?

<b>Cytuno</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<b>Anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

## Sylwadau ategol

At ei gilydd, mae Estyn yn cytuno â'r egwyddor fod sectorau a llwybrau prentisiaethau wedi'u cysylltu â meysydd galwedigaethol. Mae angen diffinio llwybrau prentisiaethau yn glir i wneud yn siŵr fod yr holl bartneriaid allweddol, gan gynnwys darpar ddysgwyr, rhieni, cyflogwyr a phersonél sy'n rhoi cyngor ar yrfaedd yn gwbl ymwybodol o ba fframweithiau sydd ar gael. Hefyd, byddai'n hynod fuddiol pe bai gwybodaeth glir ar gael ynglŷn â'r cyfleoedd dilyniant ym mhob llwybr. Rhaid i brentisiaethau gael eu hyrwyddo'n glir, a chynnig opsiwn dealladwy a hyfyw yn ogystal â llwybrau addysg a hyfforddiant eraill, fel cyrsiau Safon Uwch a phrifysgol. Dylai parch cydradd rhwng llwybrau amgen gael ei hyrwyddo a'i gefnogi'n drylwyr ar draws pob sector. Hefyd, dylid cydnabod gwerth prentisiaethau o ran dysgwyr yn

datblygu medrau trosglwyddadwy sy'n mynd y tu hwnt i alwedigaethau a sectorau unigol fel egwyddor gynllunio hanfodol mewn prentisiaethau, o ystyried y newidiadau cyflym a radical mewn technoleg ac arferion gweithio.

**Cwestiwn 2** – Pa effaith allai ddigwydd wrth gael gwared â fframweithiau generig presennol (e.e. gweinyddu a rheoli busnes)?

Mae'r fframweithiau generig hyn yn cwmpasu ystod eang o raglenni hyfforddiant. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae'r hyfforddiant y bydd dysgwyr yn ymgymryd ag ef ym mhob un ohonynt wedi'i ddiffinio'n glir yn unol â rolau a chyfrifoldebau eu swydd. Gellir teilwra cynnwys nifer gyfyngedig iawn o fframweithiau generig i ddiwallu anghenion dysgwyr a chyflogwyr. Er bod ganddynt deitl troswaol generig, mae eu cynnwys yn benodol i'r maes dysgu. Trwy gael fframweithiau sy'n hynod anhyblyg ym mhob sector galwedigaethol, gallai dysgwyr ddilyn fframweithiau nad ydynt yn gweddu'n union i rôl eu swydd a'u cyfrifoldebau. Yn yr achosion hyn, byddai gofyn i ddysgwyr ymgymryd â rolau ac asesiadau posibl sy'n anghydnaws â'u rolau o ddydd i ddydd, ac ni fyddant yn fuddiol i'w cynnydd a'u datblygiad. Er enghraifft, mae busnes, rheolaeth a'r gyfraith yn cwmpasu ystod eang o brentisiaethau, ac felly mae'n faes galwedigaethol eang fydd â llwybrau arbenigol. Fodd bynnag, mae llwybrau prentisiaethau sy'n canolbwyntio'n glir ar y maes dysgu yn fwy buddiol na fframwaith eang.

Mae'n bwysig cydnabod na ddylid cyflwyno'r holl hyfforddiant a allai fod yn ofynnol o fewn rôl swydd mewn fframwaith prentisiaeth. Mae'r ardoll wedi cymhlethu'r sefyllfa hon. Er enghraifft, pan na fydd fframwaith prentisiaeth sy'n gweddu'n llwyr ar gael, mae'r hyfforddiant yn aml yn gysylltiedig â fframwaith presennol. Wrth i fwy o gyflogwyr sy'n talu ardollau ymgymryd â phrentisiaethau, mae angen i ystod y prentisiaethau sydd ar gael fod ar waith i fodloni'r galw. Trwy gael gwared â fframweithiau generig, mae angen hyblygrwydd ac ymatebolrwydd i'r galw gan gyflogwyr ac anghenion medrau, i allu creu llwybrau newydd lle caiff bwloch ei nodi.

**Cwestiwn 3** – A oes yna unrhyw sectorau galwedigaethol eang y byddech yn disgwyl eu gweld nad ydynt wedi eu cynnwys?

Mae'n ymddangos bod y meysydd galwedigaethol sydd â'r nifer fwyaf sylweddol o ddysgwyr yn cael eu cynnwys o fewn y rhestr arfaethedig o lwybrau. Fodd bynnag, yn y dyfodol, mae angen i'r awdurdod perthnasol fod yn ystyriol i nid yn unig ddiwallu anghenion hyfforddiant y busnesau mwy, rhyngwladol yn awr ac yn y dyfodol, ond hefyd y nifer sylweddol o fentrau bach i ganolig a microfusnesau ledled Cymru. Wrth gynllunio'r cynnig prentisiaeth, mae angen ystyried gofynion hyfforddiant presennol cyflogwyr sy'n talu ardollau, a'u hanghenion hyfforddiant yn y dyfodol. Hefyd, mae angen iddo ystyried beth mae gwybodaeth am y farchnad lafur yn ei dangos am y pum mlynedd nesaf, a'r galw gan gyflogwyr. Rhaid i'r fframweithiau hyn ddiwallu anghenion economi Cymru, a chael cefnogaeth gref gan gyflogwyr.

**Cwestiwn 4** - A ddylid ailenwi, ail-alinio, uno neu rannu'r sectorau galwedigaethol arfaethedig?

Mae'n ymddangos bod y rhestr arfaethedig o sectorau galwedigaethol yn nodi'r meysydd dysgu mwyaf arwyddocaol sy'n cyflwyno rhaglenni prentisiaethau. Dylid enwi'r sectorau hyn yn ôl sut cânt eu hadnabod yn eu diwydiant perthnasol i sicrhau bod dealltwriaeth dysgwyr, cyflogwyr a rhanddeiliaid allweddol yn gyson a'r un fath. At ei gilydd, mae Estyn yn cytuno â'r ffordd y mae'r sectorau wedi cael eu nodi a'u halinio.

**Cwestiwn 5** – A yw'r llwybrau galwedigaethol yn briodol ac wedi eu halinio'n gywir o fewn sectorau?

Mae'n ymddangos bod y rhestr arfaethedig o lwybrau galwedigaethol yn nodi'r meysydd dysgu mwyaf arwyddocaol sy'n cyflwyno rhaglenni prentisiaethau. Hefyd, mae'r llwybrau yn cyd-fynd ar y cyfan â'r rhai yn Lloegr o ran cludadwyedd a chydardoldeb. Mae gan rai sectorau lwybrau sy'n benodol am reolaeth o fewn y sector, ond nid i gyd. Gallai fod yn fuddiol ystyried priodoldeb cael llwybr rheoli yn benodol i'r sector hwnnw, er cysondeb ar draws y sectorau.

**Cwestiwn 6** – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai newidiadau i strwythur y fframweithiau prentisiaethau yng Nghymru yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar:

- i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

### Sylwadau ategol

At ei gilydd, mae Estyn yn cefnogi egwyddor y newidiadau i'r fframwaith i wneud yn siŵr fod dysgwyr yn cael yr un cyfle i ddefnyddio deunyddiau addysgu, dysgu ac asesu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Yn hanesyddol, mae nifer y deunyddiau hyn sydd wedi bod ar gael yn gyfyngedig, yn dibynnu ar nifer y dysgwyr a oedd yn gofyn am asesiad ysgrifenedig neu hyfforddiant ffurfiol yn Gymraeg. Dylai asesiadau ysgrifenedig fod ar gael yn ddwyieithog i wneud yn siŵr eu bod ar gael pan ofynnir amdanynt, gan leihau'r amser arwain i gynhyrchu papurau yn sylweddol.

**Cwestiwn 7** – Esboniwch hefyd sut rydych yn credu y gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig er mwyn:

- i) cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- ii) peidio â chael unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

### Sylwadau ategol

Wrth greu fframweithiau prentisiaethau newydd, dylid ymgysylltu â chyrrff cenedlaethol, fel y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, i weithio'n agos fel bod y rhaglenni prentisiaethau o fewn y fframweithiau yn cael eu datblygu'n ddwyieithog a bod ganddynt lwybrau dilyniant clir i ddysgwyr prentisiaeth ymestyn eu medrau Cymraeg trwy gydol y rhaglen. Mae hyn yn cynnwys datblygu defnydd dysgwyr o'r Gymraeg fel medr cyflogadwyedd, yn enwedig gyda sectorau blaenoriaeth allweddol fel iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal, yn ogystal â busnes a rheoli.

**Cwestiwn 8:** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw

faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i adrodd arnynt.

Mae'r ddogfen yn datgan bod y galw am brentisiaethau yn newid wrth i gyflogwyr geisio ennill medrau ar lefelau uwch. Mae Estyn yn cytuno mewn egwyddor y dylai dysgwyr gael cyfle i symud ymlaen i lefelau uwch. Fodd bynnag, dylent ddechrau hyfforddiant ar y lefel sydd fwyaf priodol i'w lefel benodol wrth gychwyn, ac anghenion y cyflogwr. Mae tystiolaeth arolygu yn dangos bod llawer o gyflogwyr yn gofyn i ddysgwyr ddilyn hyfforddiant ar lefelau dau neu dri. Lefel tri fu'r lefel lle caiff dysgwyr eu cydnabod yn rhai 'medrus'. Mae'r dysgwyr hyn yn cyfrannu'n werthfawr at y gwaith neu'u cyflogwyr, ac maent yn gyflogeion gwerthfawr. Mae nifer sylweddol o gyflogwyr yng Nghymru yn fentrau bach i ganolig neu'n microfusnesau, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dymuno cyflogi dysgwyr ar y lefelau hyn. Mae Estyn yn cefnogi'n llawn y farn fod angen i bobl ifanc gydnabod prentisiaethau fel dewis arall credadwy a buddiol yn lle cyrsiau Safon Uwch a darpariaeth draddodiadol amser llawn ar gyfer israddedigion. Fodd bynnag, mae hyn yn parhau i fod yn her sylweddol. Mae angen i nid yn unig ddarparu ddysgwyr ddatblygu eu dealltwriaeth o'r opsiwn hyfyw hwn, ond hefyd ysgolion a rhieni a allai fod â syniad blaenorol yn seiliedig ar beidio â chael dealltwriaeth glir ynghylch pa opsiynau sydd ar gael i'w plant.

Rhaid i brentisiaethau ddarparu hyfforddiant sy'n arwain at gymhwysedd galwedigaethol. Rhaid i brentisiaethau ddarparu hyfforddiant, cymorth a mentora sylweddol yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith, gyda lefel uchel o gymorth gan gyflogwyr. Mae'n hanfodol fod y ffocws ar wella medrau llythrennedd, rhifedd a medrau digidol dysgwyr yn parhau i fod yn elfen graidd o brentisiaethau.

Mae atebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych aros yn ddienw, ticiwch yma:

